

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DIWEDDARIAD GAEAF 2024

**Cronfa Addington**
01926 620 135

**Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA)**
0300 303 8268

**Arolwg moch daear marw**
0808 169 5110

**Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS)**
0808 169 5110

**Llinell Gymorth Rheoli Llygredd Amaethyddol a weithredir gan ADAS**
01974 847 000

**Sefydliad DPJ**
0800 587 4262

**EID Cymru**
01970 636 959

**Cyswllt Ffermio**
03456 000 813

**Y Rhwydwaith Cymunedau Fferm**
03000 111 999

**Lantra Cymru**
01982 552 646

**Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)**
0300 065 3000

**Ardystiad Bwyd Cymreig o Ansawdd**
01970 636 688

**Sefydliad Fuddianol Amaethyddol Frenhinol**
0800 188 4444

**Canolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW**
0300 062 5004

**Samaritans yng Nghymru**
116 123

**Llinell Gymorth TB**
0300 303 8268

**Tir Dewi**
0800 121 4722

## Arolwg Profiad a Safbwyntiau Ffermwyr Cymru

Mae arolwg o ffermwyr Cymru yn cael ei lansio i archwilio sut mae ffermwyr yn profi newidiadau mewn amaethyddiaeth. Bydd hyn yn helpu cymunedau ffermio, y llywodraeth, a chyrff amaethyddiaeth i lywio ac ymateb i anghenion y presennol a'r dyfodol

Mae'r arolwg, sy'n cael ei gynnal gan Wavehill, yn agored i bob ffermwr, partner a gweithiwr fferm. Mae eich safbwyntiau yn amhrisiadwy wrth lunio dyfodol amaethyddiaeth yng Nghymru. I gymryd rhan yn yr arolwg dienw, ewch i **tinyurl.com/welshfarmersperspectivessurvey** neu sganiwch y cod QR.

Nodir bod y wybodaeth yn y Diweddariad Gaeaf 2024 yn gywir ac yn gyfredol hyd at ddyddiad cyhoeddi ar 18 Tachwedd 2024. I gael yr wybodaeth ddiweddaraf, ewch i wefan Llywodraeth Cymru yn: llyw.cymru.

OGL © Hawlfraint y Goron 2024
WG50703 ISBN digidol: 978-1-83625-846-9 ISBN argraffu: 978-1-83625-845-2

# CYNNWYS




05
TALIADAU GWLEDIG CYMRU

07
CYNLLUNIAU CYMORTH AMAETHYDDOL

08
COEDWIGAETH

10
DIWEDDARIAD DEDDFWRIAETH TENANTIAETH AMAETHYDDOL

11
RHEOLIADAU LLYGREDD AMAETHYDDOL

13
RHYBUDD I BOB CEIDWAD DEFAID A GEIFR

15
IECHYD A LLES ANIFEILIAID

18
CWRS NEWYDD YN MYND I'R AFAEL AG YMOSODIADAU CŴN AR DDA BYW

20
PARTNERIAETH DIOGELWCH FFERMYDD CYMRU

22
PARATOWCH EICH FFERM AR GYFER LLIFOGYDD YN Y GAEAF

23
DEWCH I'N GWELD YN Y FFAIR AEAF

24
GWASANAETH CYSYLLTWYR FFERM

25
MATERION GWLEDIG CYMRU

26
CYSWLLT FFERMIO

28
BLE ALLA I GAEL HELP?



# TALIADAU GWLEDIG CYMRU

## Cadarnhau Data'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) 2024

Mae ffurflen Cadarnhau Data SFS 2024 ar gael ar RPW Ar-lein tan 6 Rhagfyr 2024. Mae'r Ffurflen Cadarnhau Data yn dangos y data mapiau cyfredol sydd gennym ar gyfer ffermydd ac yn rhoi cyfle i chi adolygu, diwygio a chadarnhau'r ardaloedd cynefin a chanopi coed ar eich fferm.

Os nad ydych wedi cael mynediad i'ch ffurflen eto, byddem yn eich annog i wneud yn siŵr bod y data sydd gennym ar eich cyfer yn gyfredol.

Os ydych yn bwriadu gwneud cais am Gynllun Cynefin Cymru (HWS) 2025, y ffurflen Cadarnhau Data yw eich unig gyfle i gadarnhau neu newid yr ardaloedd cynefin ar eich fferm ar gyfer y cynllun. Ni fyddwch yn gallu diwygio'r cynefin cyhoeddedig o fewn parsel cae wrth hawlio ar gyfer y cynllun ar y Ffurflen Cais Sengl (SAF) 2025. Mae canllawiau ar HWS 2025 ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.



Mae taliadau ymlaen llaw gwerth hyd at 70% o werth terfynol disgwyliedig hawliad BPS 2024 wedi'u talu i gwsmeriaid lle'r oedd yn bosibl cadarnhau cymhwysedd hawlio, a bod yr holl Ddogfennau Cefnogi angenrheidiol wedi'u derbyn mewn pryd i wneud y taliad. Efallai y bydd rhesymau pam nad yw Blaendaliad BPS wedi'i wneud, er enghraifft, oherwydd anghydfod tir parhaus, achosion o dorri rheolau a nodwyd wrth archwilio neu faterion profiant sy'n weddill.

Yn amodol ar gwblhau'r dilysiad llawn, bydd taliadau balans BPS 2024, neu daliadau llawn i'r rhai nad ydynt wedi derbyn taliad ymlaen llaw, yn dechrau o 12 Rhagfyr 2024.

## Trosglwyddo Hawliau BPS 2025

Agorodd ffenestr drosglwyddo hawliau BPS 2025 ar 2 Medi 2024. Mae ffurflenni Trosglwyddo Hawliau ar gael drwy eich cyfrif RPW Ar-lein.

Gall gwerthoedd hawliau a ddangosir ar eich cyfrif RPW Ar-lein fod yn destun newidiadau blynyddol i ystyried gwerth hawliau heb eu hawlio yn 2025 a chyllideb Cronfa Wrth Gefn Genedlaethol heb ei ddyrannu yn 2025. Bydd unrhyw gynnydd a gymhwysir i werth yr hawliad yn 2025 ond yn berthnasol yn 2025.

Rhaid i gwsmeriaid gyflwyno'r ffurflen Trosglwyddo Hawliau cyn hanner nos ar 15 Mai 2025 er mwyn i'r hawliau fod ar gael i'w hawlio ar BPS 2025.

## Trawsgydymffurfio 2024

Mae ein taflenni ffeithiau 2024 yn adlewyrchu newidiadau mewn gofynion, arfer da ac i egluro geiriad. Bu rhai newidiadau hefyd i Safonau Gwiriadwy Trawsgydymffurfio 2024 ar gyfer dosbarthu achosion o Amodau Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (GAEC) a Gofynion Rheoli Statudol (SMR).

SMR 1 – Mae Diogelu Dŵr, wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r gofynion sy'n berthnasol i bob tir o 1 Awst 2024 o dan Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys gofynion i gydymffurfio â chyfnodau caeedig ar gyfer lledaenu tail organig gyda nitrogen sydd ar gael yn hawdd iawn (yn cynnwys slyri a thail dofednod) a sicrhau digon o le storio ar gyfer tail yn ystod y cyfnod storio.

**llyw.cymru/trawsgydymffurfio-2024**

## RPW Ar-lein – GOV.UK One Login

Er mwyn moderneiddio RPW Ar-lein ac er mwyn i ni allu ychwanegu pethau newydd yn y dyfodol, rydym am roi'r gorau i ddefnyddio Porth y Llywodraeth. Mae Taliadau Gwledig Cymru (RPW) wrthi'n datblygu system newydd fel bod cwsmeriaid yn mynd ar RPW Ar-lein gan ddefnyddio GOV.UK One Login.

Gan y bydd angen eu gwybodaeth mewngofnodi eu hunain ar bob unigolyn sy'n defnyddio RPW Ar-lein, gwnewch yn siŵr ymlaen llaw bod yr holl fanylion unigol yn gyfredol ac yn gywir ar eich tab Manylion Unigol Cyfrif Ar-lein RPW.



# CYNLLUNIAU CYMORTH AMAETHYDDOL

I weld dyddiadau ymgeisio pob un o'r cynlluniau cymorth amaethyddol, ewch i: **llyw.cymru/cynlluniau-gwledig-dyddiadau-ymgeisio**.

I weld canllawiau pob un o'r Cynlluniau Cymorth Amaethyddol, ewch i **llyw.cymru/grantiau-a-thaliadau-gwledig**, ychydig cyn i bobl allu ymgeisio ar gyfer y rownd nesaf.

Cyhoeddodd y Dirprwy Brif Weinidog sydd â chyfrifoldeb dros Faterion Gwledig, Huw Irranca-Davies, yn ddiweddar y bydd cam paratoi 2025 yn cynnwys nifer o gynlluniau a fydd yn darparu cyngor a chymorth i ffermwyr cyn cyflwyno'r SFS.

| Cynllun | Dyddiad Agor y Cynllun | Dyddiad Cau'r Cynllun |
|---|---|---|
| Tyfu er mwyn yr amgylchedd | 4 Tachwedd 2024 | 13 Rhagfyr 2024 |
| Dechrau Busnes Garddwriaeth | 4 Tachwedd 2024 | 10 Ionawr 2025 |
| Cynllun Datblygu Garddwriaeth | 4 Tachwedd 2024 | 17 Ionawr 2025 |
| Grantiau Bach – Amgylchedd | 13 Ionawr 2025 | 21 Chwefror 2025 |
| Grantiau Bach – Effeithlonrwydd | 3 Mawrth 2025 | 11 Ebrill 2025 |

## Cynllun Cynefin Cymru 2025

Bydd cynllun Cynefin Cymru yn cael ei gynnig yn 2025, gyda phob busnes ffermio unigol cymwys yn gallu gwneud cais. Os ydych yn bwriadu hawlio ar gyfer Cynllun Cynefin Cymru 2025, mae'n bwysig bod yr holl gynefin ar eich fferm yn cael ei gadarnhau drwy lenwi ffurflen Cadarnhad Data SFS 2024 erbyn y dyddiad cau, sef 6 Rhagfyr 2024. Dyma eich unig gyfle i gadarnhau'r ardaloedd cynefin ar eich fferm cyn i'r cynllun agor.

Ni fyddwch yn gallu diwygio'r cynefin sydd yn cael ei ddatgan i chi o fewn parsel o dir wrth hawlio ar gyfer y cynllun ar Ffurflen y Cais Sengl (SAF) 2025.

Nid yw cadarnhau cynefin yn ymrwymiad i'w reoli yn 2025, gallwch benderfynu a ydych am hawlio a rheoli'r cynefin ar barsel yn unol â gofynion categorïau cynefin cyhoeddedig Cynllun Cynefin Cymru 2025. Cyhoeddir canllawiau ar y cynllun ar y Gwefan Llywodraeth Cymru ar **llyw.cymru/grantiau-a-thaliadau-gwledig**.

Bydd Tiroedd Comin yng Nghynllun Cynefin Cymru 2024 yn cael cynnig estyniad o flwyddyn i'w dyfarniadau grant presennol am eu cyfranogiad parhaus yn 2025.

## Cymorth Organig 2025

Bydd y Taliad Cymorth Organig ar gael i'w hawlio ar Ffurflen y Cais Sengl (SAF) 2025. I fod yn gymwys, rhaid i dir fod o dan ardystiad organig parhaus rhwng 1 Ionawr 2025 a 31 Rhagfyr 2025.

# COEDWIGAETH



## Cynllun Adfer Coetir

Agorodd y Cynllun Adfer Coetir (WRS) ar 11 Tachwedd 2024 a bydd yn cau ar 28 Chwefror 2025 neu unwaith y bydd y gyllideb o £1 miliwn wedi'i dyrannu. Mae'r WRS yn cefnogi tirfeddianwyr i adfer coetiroedd sydd wedi'u heffeithio gan bresenoldeb y clefyd Phytophthora ramorum ar goed.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Forest Research i ddiweddaru'r WRS, i ddarparu cynnig gwell i berchnogion coetiroedd. Mae'r newidiadau allweddol yn cynnwys:

- cynnydd sylweddol i'r cyfraddau talu;
- am y tro cyntaf, cyllid tuag at dorri llarwyddau ifanc o dan 25 oed yr effeithir arnynt gan phytophthora ramorum;
- cyfnod ymgeisio hirach gyda dewisiadau misol gan Daliadau Gwledig Cymru;
- mwy o amser i ymgymryd â'r gwaith cyfalaf, ar draws dwy flwyddyn ariannol.

Fel gyda rowndiau blaenorol, bydd angen Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol, Trwydded Cwympo Coed neu Gais am Drwydded Cwympo Coed er mwyn bod yn gymwys i wneud cais. Bydd angen I bob ymgeisydd llwyddiannus gwblhau'r gwaith erbyn 31 Mawrth 2026.

Am fwy o wybodaeth, ewch i: **llyw.cymru/grantiau-coedwigaeth**

### Cyngor cyn ymgeisio ar greu coetiroedd

Mae Y Cynllun Cynllunio Creu Coetir yn parhau ar agor drwy gydol y flwyddyn i ddechrau'r broses o greu coetir.

Mae 'gwasanaeth cyn ymgeisio' am ddim ar gael gan CNC. Mae'r gwasanaeth hwn wedi'i gynllunio i gynnig gwybodaeth am addasrwydd eich tir ar gyfer creu coetir. I gael y cyngor am ddim neu am wybodaeth bellach e-bostiwch **GwirioCynllunCoetir@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**

# CLEFYD COED YNN: Y DULL POLISI 2024-2029

Mae'r ddogfen hon yn nodi dull gweithredu lefel uchel gan Lywodraeth Cymru ac yn darparu dolenni i ffynonellau cyngor. Fe'ch cynghorir i ymgynghori a defnyddio gwasanaethau gweithiwr proffesiynol rheoli coed sydd wedi'i yswirio'n llawn, fel coedwigwr neu dyfwr coed cymwys wrth fynd i'r afael ag unrhyw waith.

Diben y ddogfen hon yw egluro dull polisi Llywodraeth Cymru o ran rheoli clefyd coed ynn ledled Cymru. Mae'n cadarnhau y dylai perchnogion a rheolwyr tir ddefnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar risg i reoli effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd y clefyd.

Mae clefyd coed ynn yn atgoffa pobl ar draws tirweddau Cymru o'r difrod y gall plâu a chlefydau coed ei wneud, ac o bwysigrwydd ecosystemau gwydn.

Mae'r ddogfen hon yn rhan o Strategaeth Bioddiogelwch Planhigion Prydain Fawr 9 (**llyw.cymru/strategaeth-bioddiogelwch-planhigion-prydain-2023-i-2028**), y mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno arni ochr yn ochr â'u swyddogion cyfatebol sydd â chyfrifoldeb dros iechyd planhigion yn Lloegr a'r Alban. Mae hefyd yn adlewyrchu cyd-destun yr argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur a gafodd eu datgan gan Weinidogion Cymru yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Gwyddom fod gan blâu, pathogenau a rhywogaethau estron goresgynnol y potensial i effeithio ar iechyd a gwytnwch yr amgylchedd naturiol yng Nghymru ac y bydd y risgiau hyn ond yn cynyddu gyda newid yn yr hinsawdd. Rhaid i bob un ohonom weithredu mewn modd cyfrifol, yn unol â'r egwyddorion a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan weithio i gynnal ecosystemau bioamrywiol a chydnerth ledled Cymru.

Am y ddogfen lawn, ewch i: **llyw.cymru/clefyd-coed-ynn-y-dull-polisi-2024-i-2029-html**.



# DIWEDDARIAD AR Y DDEDDFWRIAETH TENANTIAETH AMAETHYDDOL

Ar 15 Gorffennaf 2024 daeth y ddau ddarn newydd canlynol o ddeddfwriaeth i rym:

1. **Rheoliadau Daliadau Amaethyddol (Ceisiadau am Gydsyniad y Landlord neu Amrywio Telerau a'r Prawf Addasrwydd) (Cymru) 2024**

- Nod y rheoliad hwn yw helpu tenantiaid i gael gafael ar gymorth ariannol neu gydymffurfio â dyletswydd statudol.
- Gall tenantiaid bellach geisio cymrodeddu os yw eu landlord yn gwrthod ceisiadau am gydsyniad i weithgareddau sydd wedi'u cyfyngu gan eu cytundeb tenantiaeth.
- Mae hyn hefyd yn berthnasol i newid telerau eu cytundeb tenantiaeth.
- Rhaid i'r cais ymwneud â chael gafael ar gymorth ariannol neu fodloni rhwymedigaeth gyfreithiol.
- Cyflwynodd hefyd Feini Prawf Addasrwydd newydd o 1 Medi 2024 ymlaen.
- Bydd angen i ymgeiswyr olyniaeth brofi bod ganddynt y profiad a'r sefyllfa ariannol i ffermio'n dda a gofalu am yr amgylchedd.
- Yn ogystal, mae'r Prawf Uned Fasnachol wedi'i ddileu, sy'n golygu y gall ymgeiswyr bellach fod â buddiant mewn daliad arall.

2. **Rheoliadau Tenantiaethau Amaethyddol (Ceisiadau am Gydsyniad y Landlord neu Amrywio Telerau) (Cymru) 2024**

- Mae'r rheoliad hwn yn cyflwyno gweithdrefnau datrys anghydfod newydd ar gyfer tenantiaid sydd â Thenantiaethau Busnes Fferm, sy'n debyg i'r rhai a ddisgrifir uchod o dan y Ddeddf Daliadau Amaethyddol.

Nod y diweddariadau hyn yw moderneiddio a chefnogi'r sector tenantiaid amaethyddol yng Nghymru, gan sicrhau y gall tenantiaid reoli eu daliadau yn effeithiol a chael gafael ar gymorth ariannol.

Gall ffermwyr tenant gael rhagor o wybodaeth am y newidiadau hyn gan y Gymdeithas Ffermwyr Tenant, Undeb Amaethwyr Cymru ac Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru.

Gall perchnogion tir ddod o hyd i ragor o wybodaeth drwy'r Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad.

I gael gwybodaeth arbenigol, cysylltwch â'r canlynol:

- **Arolygon:** Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig a Chymdeithas y Prif Syrfewyr Ystadau;
- **Prisio Amaethyddol:** Y Gymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol;
- **Cyngor Cyfreithiol:** Y Gymdeithas Cyfraith Amaethyddol.

# RHEOLIADAU LLYGREDD AMAETHYDDOL



## Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol

Cyflwynwyd y Rheoliadau yn 2021, gan ddefnyddio dull cyflwyno graddol, ac mae gofynion y Rheoliadau yn berthnasol i bob daliad yng Nghymru.

Mae'r cam olaf wedi bod yn berthnasol ers 1 Awst 2024, ac mae'n cynnwys gofynion ar gyfer y capasiti storio slyri ac yn cyflwyno cyfnodau gwaharddedig ar gyfer gwasgaru tail sydd â chyfran uchel o nitrogen ar gael yn rhwydd. Mae hyn er mwyn lleihau'r risg i'r amgylchedd pan fydd twf cnydau, gan gynnwys glaswellt, yn cael ei leihau'n sylweddol dros ddiwedd cyfnod yr hydref a'r gaeaf.

## Cyfnodau gwaharddedig ar gyfer gwasgaru tail da byw sydd â chyfran uchel o nitrogen

Cyflwynodd y Rheoliadau gyfnodau gwaharddedig newydd ar gyfer gwasgaru tail da byw sydd â chyfran uchel o nitrogen ar gael yn rhwydd.

Mae tail na ellir ei wasgaru yn ystod y cyfnod gwaharddedig yn cynnwys slyri gwartheg, slyri moch a thail dofednod neu unrhyw dail arall y mae mwy na 30% o gyfanswm y nitrogen sydd ynddo ar gael ar adeg ei ledaenu.

| Math o Bridd | Glaswelltir | Tir tro |
|---|---|---|
| Pridd tywodlyd neu denau | 1 Medi i 31 Rhagfyr | 1 Awst i 31 Rhagfyr |
| Pob math arall o bridd | 15 Hydref i 15 Ionawr | 1 Hydref i 31 Ionawr |

Nid yw cyfyngiadau'r cyfnod gwaharddedig yn effeithio ar wasgaru tail solet o fuarth fferm gan fod ganddo gynnwys nitrogen is.

## Cyfyngiadau ar wasgaru ar ôl y cyfnod gwaharddedig

O ddiwedd y cyfnod gwaharddedig hyd at ddiwedd Chwefror, 30 metr ciwbig yr hectar yw'r uchafswm o slyri y caniateir ei wasgaru ar unrhyw un adeg, ac 8 tunnell yr hectar yw'r

uchafswm o dail dofednod y caniateir ei wasgaru ar unrhyw un adeg. Rhaid bod o leiaf dair wythnos rhwng pob gwasgariad.

## Esemptiadau

Mae dyddiadau amgen, cyfraddau gwasgaru ac esemptiadau cyfyngedig yn berthnasol i gynhyrchwyr organig ardystiedig. Gweler Llywodraeth Cymru am fanylion.

## Adolygiad o'r Rheoliadau

Mae Llywodraeth Cymru wedi penodi Dr Susannah Bolton yn Gadeirydd Annibynnol yr Adolygiad o Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 a rhaid cwblhau'r adolygiad erbyn Gwanwyn 2025.

Mae holl ofynion y rheoliadau yn dal i fod yn berthnasol yn ystod y cyfnod adolygu hwn.

## Canllawiau a chymorth

Mae'n bwysig sicrhau eich bod wedi cyflawni'r camau gweithredu gofynnol ar gyfer eich daliad er mwyn dangos eich bod yn cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau cyn unrhyw archwiliad

Ymhlith materion diffyg cydymffurfio cyffredin a nodwyd yn ystod ymweliadau CNC mae –

**Mapiau Risg –** Mae llawer o ffermydd naill ai heb fapiau neu'n darparu fersiynau anghyflawn. Mae hepgoriadau yn aml yn cynnwys:

- dynodwyr maes (enw/rhif) ac arwynebedd maes (ha);
- clustogfeydd (pob math);
- lleoliadau pentyrrau caeau;
- tir ag inclein sy'n fwy na 12°; a
- rhaid iddo fod yn glir i'r arolygydd beth yw ystyr y marciau (e.e. drwy gynnwys allwedd).

**Cofnodion fferm –** Nid oes gan lawer o ffermydd unrhyw ddogfennau ar gael i'r arolygydd neu maent yn dibynnu ar gofnodion cais heb gynllun priodol. Mae hepgoriadau yn aml yn cynnwys:

- cyflenwad Nitrogen Pridd (SNS) cywir a chyfrifiadau nitrogen optimwm;
- dylid mynegi cyfraddau taenu tail organig yn glir, fel arfer mewn tunelli neu fetrau ciwbig yr hectar;
- rhaid cofnodi faint o nitrogen sydd mewn gwrtaith nitrogen a weithgynhyrchwyd, nid dim ond y gyfradd chwalu;
- rhaid i gyfrifiadau storio slyri gynnwys ardaloedd sy'n draenio i'r system slyri; a
- rhaid i gofnodion allforio a mewnforio gynnwys dyddiad ac enw a chyfeiriad y cyflenwr neu'r derbynnydd.

Mae canllawiau llawn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru **llyw.cymru/rheoli-tir**.

Mae cymorth technegol ar gael gan linell gymorth Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol a weithredir gan ADAS ar 01974 847000.

Mae adnoddau ategol hefyd ar gael drwy Cyswllt Ffermio.

# RHYBUDD I BOB CEIDWAD DEFAID A GEIFR



**Mae'r Stocrestr Flynyddol Defaid a Geifr bron bod yma:**
**1 Rhagfyr 2024.**

Dyddiad y Stocrestr Flynyddol Defaid a Geifr nesaf fydd 1 Rhagfyr 2024. Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais yw 31 Rhagfyr 2024:

## Sut i gwblhau'r stocrestr

- Ceidwaid sydd â chyfrif EIDCymru cofrestredig – bydd y stocrestr ar gael ar eich cyfrif yn **eidcymru.org** ar 1 Rhagfyr 2024.
- Gwahoddir ceidwaid nad oes ganddynt gyfrif EIDCymru cofrestredig i gwblhau'r stocrestr ar borth ar-lein EIDCymru. Nodir manylion sut i gael mynediad i'r Porth yn y llythyrau diweddar a roddwyd i'r ceidwaid hynny heb gyfrif EIDCymru.

Gallwch barhau i gofrestru ar gyfer cyfrif EIDCymru os byddai'n well gennych gwblhau'ch stocrestr fel hyn. Cysylltwch â staff EIDCymru ar 01970 636959 neu e-bostiwch **contact@eidcymru.org** a fydd ar gael i'ch tywys drwy'r broses.

## Gwybodaeth sydd ei angen i gwblhau'r stocrestr

I gwblhau'r stocrestr, cofnodwch nifer y defaid a/neu geifr yr ydych yn berchen arnynt ar 1 Rhagfyr a'r CPH lle maent wedi'u lleoli ar y dyddiad hwn. Dylai hyn gynnwys tir comin ac unrhyw CPH dros dro.



| Dyddiad | Lleoliad | Amser |
|---|---|---|
| 2 a 9 Rhagfyr 2024 | Marchnad Da Byw Y Trallwng | 10.00am – 3.00pm |
| 3 Rhagfyr 2024 | Marchnad Da Byw Rhuthun | 10.00am – 3.00pm |
| 3 a 10 Rhagfyr 2024 | Marchnad Da Byw Aberhonddu | 10.00am – 3.00pm |
| 4 a 11 Rhagfyr 2024 | Marchnad Da Byw Raglan | 10.00am – 3.00pm |
| 5 Rhagfyr 2024 | Marchnad Da Byw Llanelwy | 10.00am – 3.00pm |
| 6 a 13 Rhagfyr 2024 | Marchnad Da Byw Caerfyrddin | 10.00am – 3.00pm |
| 6 a 13 Rhagfyr 2024 | Marchnad Da Byw Dolgellau | 10.00am – 3.00pm |

Mae cymorth ac arweiniad pellach, gan gynnwys rhestr wirio ddefnyddiol i helpu i gasglu'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer y stocrestr, i'w gweld ar **llyw.cymru/ceidwaid-defaid-geifr-stocrestr-flynyddol-rhagfyr-2024**.

Rydym hefyd wedi trefnu'r sesiynau canlynol yn ystod hanner cyntaf mis Rhagfyr lle bydd staff o'r Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm a Cyswllt Ffermio yn gallu rhoi cymorth i gwblhau eich stocrestr.

Bydd EIDCymru, y Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm a Cyswllt Ffermio yn y Ffair Aeaf i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Rydym yn eich annog i gwblhau eich stocrestr cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Rhagfyr, ac i fanteisio ar y gefnogaeth sydd ar gael. Mae oriau agor EIDCymru dros gyfnod yr ŵyl ar gael ar eu gwefan **eidcymru.org**.

# IECHYD A LLES ANIFEILIAID



## Feirws y Tafod Glas: Diweddariadau Allweddol

Cafodd yr achos cyntaf yng Nghymru o seroteip 3 y Tafod Glas (BTV-3) ei gadarnhau gyda'r nos ar 27 Medi gan y Dirprwy Brif Swyddog Milfeddygol (DCVO). Cafwyd hyd iddo mewn tair dafad a oedd wedi cael eu symud i fferm yng Ngwynedd o ddwyrain Lloegr. Mae'r dair ddafad heintiedig wedi cael eu difa ac mae'r holl wartheg a defaid eraill sy'n byw ar y daliad wedi profi'n negyddol.

Rydym yn annog ffermwyr i fod yn wyliadwrus am arwyddion o'r Tafod Glas ac i ddod o hyd i dda byw yn gyfrifol. Am fwy o wybodaeth, ewch i **llyw.cymru/feirws-y-tafod-glas-btv**.

Caniateir "defnydd brys" tri brechlyn anawdurdodedig, dan drwydded yn Lloegr. Mae Defra wedi cyhoeddi trwydded gyffredinol ar gyfer defnydd brechlyn yn siroedd risg uchel Lloegr ac mae trwydded benodol gan APHA ar gael i geidwaid o Loegr y tu allan i'r siroedd risg uchel. Nid yw brechlynnau seroteip 3 Tafod Glas wedi'u trwyddedu i'w defnyddio yng Nghymru ar hyn o bryd.

Daeth **Gorchymyn Clefydau Egsotig (Cymhwyso a Diwygio Deddfiadau) (Cymru)** (**legislation.gov.uk/ wsi/2024/971/made**) i rym ar 23 Medi 2024. Mae'r Gorchymyn newydd hwn yn diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n caniatáu i Lywodraeth Cymru ac APHA fabwysiadu dull mwy hyblyg, cymesur sy'n seiliedig ar risg tuag at atal Feirws y Tafod Glas.

## Mae profi eich buches am BVD bellach yn ofyniad cyfreithiol yng Nghymru

Mae'r ddeddfwriaeth BVD a gyflwynwyd gan y diwydiant ar 1 Gorffennaf 2024 yn ei gwneud yn ofynnol i geidwaid:

- Sgrinio eu buchesi am Ddolur Rhydd Feirysol Buchol (BVD) bob blwyddyn,
- Ynysu anifeiliaid sydd â haint parhaus oddi wrth weddill y fuches am weddill eu hoes.

Mae gan geidwaid tan 1 Gorffennaf 2025 i gwblhau eu prawf sgrinio blynyddol cyntaf, fel arall, bydd buchesi sydd heb gwblhau eu prawf sgrinio yn cael eu gosod o dan gyfyngiadau symud hyd nes y bydd canlyniad prawf negyddol. Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am sgrinio blynyddol gorfodol ar **llyw.cymru/cynllun-dileu-dolur-rhydd-feirysol-buchol-cymru-canllawiau-html**.

**Sut mae'n gweithio:**

1. Mae'r sampl prawf yn cael ei gymryd.
2. Bydd y sampl ynghyd â'r ffurflen yn cael ei hanfon i'r labordy i'w dadansoddi.
3. Os cwblheir yr holl ofynion ar y ffurflen yn gywir yna bydd canlyniadau'r labordy yn cael eu llwytho ar y system BVDCymru.
4. Bydd ffermwr a milfeddyg yn cael gwybod am y statws gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar y ffurflen gyflwyno.
5. Gall y ceidwad a'r milfeddyg weld canlyniadau profion a statws yr anifail / fuches ar-lein.



Datblygwyd system BVDCymru fel rhyngwyneb ychwanegol ar system cofnodi symudiadau defaid a geifr EIDCymru ar gyfer Cymru. Bydd y system BVDCymru yn cyflawni'r swyddogaethau canlynol:

- Dal a storio canlyniadau profion BVD o labordai.
- Neilltuo a chofnodi statws BVD ar lefelau buchesi ac anifeiliaid unigol.
- Cyhoeddi hysbysiadau e-bost ynghylch statws BVD i geidwaid a milfeddygon buches, prosesu canlyniadau ar ôl y prawf.

Mae profion yn gwella iechyd a phroffidioldeb buchesi drwy alluogi nodi anifeiliaid heintiedig yn gyflym, rheoli clefydau a masnachu gwartheg mewn modd gwybodus a mwy diogel.

Mae manteision bod yn rhydd rhag BVD yn cynnwys gwell cynhyrchiant a ffrwythlondeb a buches â throed carbon is. Mae cynnal statws rhag BVD yn gwella iechyd buches trwy leihau'r defnydd o wrthfiotigau a hyrwyddo iechyd gwell ar gyfer lloi.

Cysylltwch â'ch milfeddyg i archebu eich prawf BVD.

## Cofrestriad Gorfodol Dofednod ac Adar Caeth Eraill

Ar 1 Hydref, daeth yn ofyniad cyfreithiol i bob ceidwad adar yng Nghymru a Lloegr gofrestru eu hunain gyda'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA), ar y cofrestr dofednod ac adar caeth eraill.

**gov.uk/government/publications/poultry-including-game-birds-registration-rules-and-forms.cy**

Dim ond adar sy'n cael eu cadw fel anifeiliaid anwes ac sy'n byw dan do drwy'r amser heb unrhyw fynediad i'r awyr agored sy'n cael eu heithrio rhag cofrestru. Rhaid i bawb sy'n cadw adar eraill, waeth faint maen nhw'n ei gadw, eu cofrestru nawr, os nad ydyn nhw wedi gwneud hynny eisoes.

Drwy gofrestru, byddwch yn derbyn diweddariadau pwysig ac arweiniad os oes achos o glefydau, fel ffliw adar, yn eich ardal. Byddwch hefyd yn helpu i atal clefydau rhag lledaenu ac amddiffyn yr holl adar a gedwir, gan gynnwys heidiau iardiau cefn.

Bydd gofyn i geidwaid adar adolygu eu cofrestriad bob blwyddyn, er mwyn sicrhau bod eu manylion yn parhau i fod yn gyfredol.

## Mae gweithwyr sy'n ymateb i achosion ffliw dofednod ac adar bellach yn gymwys i gael brechlyn ffliw

Mae gweithwyr dofednod wedi cael eu hychwanegu at y rhestr o'r rhai sy'n gymwys i gael brechiad rhag y ffliw tymhorol gan GIG Cymru y gaeaf hwn.

Yn seiliedig ar argymhellion y Cydbwyllgor Brechu ac Imiwneiddio (JCVI), nod y **mesur rhagofalus hwn** yw lleihau'r risg o gyd-heintio rhwng firysau ffliw adar a dynol, a allai arwain at ledaenu firws sy'n cael ei drosglwyddo i bobl.

Anogir gweithwyr dofednod sy'n dod o fewn y meini prawf cymhwysedd (**phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/fluvaccine/eligibility/**) i fanteisio ar y cynnig o frechiad mewn fferyllfa gymunedol.

Gall cyflogwyr lawrlwytho llythyr i'w rannu gyda'u staff yn cadarnhau cymhwyster, y gellir ei gyflwyno wedyn mewn fferyllfa gymunedol i gael eu brechu.



# CWRS NEWYDD YN MYND I'R AFAEL AG YMOSODIADAU CŴN AR DDA BYW

Mae cŵn sy'n ymosod ar dda byw yn destun gofid aruthrol ac rydyn ni am wneud popeth yn ein gallu i fynd i'r afael â'r broblem.

Mae'r elusen anifeiliaid flaenllaw y Groes Las wedi cyflwyno modiwl' Newydd ymddygiad o gwmpas da byw' i'w cwrs ar sut I fod yn berchennog cyfrifol ar gi

Nod y cwrs yw addysgu perchnogion cŵn a lleihau nifer yr ymosodiadau ar dda byw gan gŵn. Bydd ar gael i'r heddlu ledled Cymru i ddelio â pherchnogion cŵn sy'n ymosod ar dda byw.

Mae addasu a gweithredu'r cwrs wedi'i hyrwyddo gan Rob Taylor, Cydlynydd Bywyd Gwyllt a Throseddau Gwledig Cymru, a'i rôl yw cryfhau'r ymateb i Fywyd Gwyllt a Throseddau Gwledig ledled y wlad.


Mae rhagor o wybodaeth am waith cydlynydd Bywyd Gwyllt a Throseddau Gwledig Cymru ar gael yn **llyw.cymru/grwp-troseddau-bywyd-gwyllt-chefn-gwlad-cymru**.

**Yn ddiweddar, cyfarfu Dirprwy Brif Weinidog â chyfrifoldeb dros Faterion Gwledig, Huw Irranca-Davies, a ffermwr lle yr oedd cwn wedi ymosod a rei dda byw yn ddiweddar:**

"Mae cŵn sy'n ymosod ar dda byw yn broblem fawr a gofidus iawn ac rydym am i ffermwyr ddeall ein bod yn cymryd y mater hwn o ddifri.

"Mae cwrdd â rhywun sydd wedi dioddef trosedd o'r math hwn wedi rhoi cyfle i mi drafod y broblem yn fanwl â'r cymunedau yr effeithiwyd arnyn nhw.

"Rydyn ni'n cymryd yr ymosodiadau hyn o ddifri ac rydyn ni am i bobl ysgwyddo'u cyfrifoldeb am ymddygiad eu cŵn p'un a ydyn nhw'n byw ar fferm neu'n cerdded ger tir fferm."





# 5 AWGRYM DA
## AR GYFER LLEIHAU'R RISG O DROI ATV DROSODD



**POB DEFNYDDIWR**
i fod yn gymwys
ac wedi'i hyfforddi



Gwisgwch helmed
**BOB AMSER**

PARTNERIAETH DIOGELWCH AR FFERMYDD CYMRU
WALES FARM SAFETY PARTNERSHIP

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i **llyw.cymru/cyswlltffermio** neu **hse.gov.uk/agriculture**. Fel arall, edrychwch ar **@farmsafetywales** ar X, Facebook, Instagram i ddysgu pa adnoddau sydd ar gael am ddim i wneud eich fferm yn fwy diogel.



**PEIDIWCH**
**byth â chario teithwyr**



**SICRHEWCH EICH bod yn cynnal a chadw a gwirio diogelwch y cerbyd yn rheolaidd**



**Cadwch at y**
**LLWYBRAU A GYNLLUNIWYD**

# PARATOI EICH FFERM AR GYFER LLIFOGYDD Y GAEAF

Mae CNC wedi adnewyddu eu cyngor yn ddiweddar ar gyfer paratoi ar gyfer llifogydd i gwsmeriaid amaethyddol, y gellir dod o hyd iddo trwy ymweld â'r wefan neu sganio'r cod QR:

**naturalresources.wales/guidance-and-advice/business-sectors/farming/how-to-prepare-a-farm-or-agricultural-land-for-flooding?lang=cy**

Gyda'r gaeaf yn dod â thywydd oer a gwlyb yn ei sgil, mae'n bwysig paratoi ar gyfer llifogydd posibl ar dir amaethyddol. Gall llifogydd achosi difrod difrifol i ffermydd, gan beryglu da byw, cnydau a bywoliaeth y bobl sy'n dibynnu ar y fferm.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn annog ffermwyr i weithredu nawr i leihau effaith llifogydd. Gall camau syml wneud gwahaniaeth mawr o ran diogelu eich fferm.



## Gwiriwch eich Perygl Llifogydd

Defnyddiwch offeryn perygl llifogydd CNC i weld a yw eich tir mewn perygl o lifogydd o afonydd, y môr, dŵr wyneb, neu nentydd cyfagos.

Rhowch sylw penodol i ardaloedd isel lle mae dŵr yn tueddu i gronni, tir ger cyrsiau dŵr, a chaeau â phridd cywasgedig, na fydd yn amsugno dŵr mor hawdd.

## Creu Cynllun Llifogydd Fferm

Gwnewch yn siŵr bod gennych gynllun llifogydd clir ar waith. Dylai'r cynllun amlinellu'r hyn sydd angen ei wneud – a chan bwy. Rhannwch y cynllun gyda'ch holl staff, a'i gadw yn rhywle diogel a chyfleus. Drwy fod yn barod, gallwch helpu i leihau difrod i'ch fferm.

## Lleihau Effaith Llifogydd

Cyfrifoldeb perchennog y tir yw rheoli peryglon llifogydd, yn enwedig os yw eich tir yn agos at gwrs dŵr. Rhowch sylw i ba gamau y gellir eu cymryd i leihau'r risg o lygredd amaethyddol yn ystod llifogydd. Lleihau cywasgu pridd a chanolbwyntio ar ddraenio da i helpu dŵr i lifo i ffwrdd yn haws. Meddyliwch am ffyrdd o atal neu gronni dŵr rywle cyn iddo achosi difrod.

## Cael y Diweddaraf

Gwiriwch rybuddion llifogydd yn rheolaidd a gwiriwch a allwch gofrestru i dderbyn rhybuddion llifogydd.

Am gyngor manylach, ewch i wybodaeth newydd CNC ar y we ar sut i baratoi eich fferm ar gyfer llifogydd: **naturalresources.wales/guidance-and-advice/business-sectors/farming/how-to-prepare-a-farm-or-agricultural-land-for-flooding/?lang=cy**



## DEWCH I'N GWELD YN Y FFAIR AEAF

Bydd Staff Llywodraeth Cymru gan gynnwys aelodau o' dim Cysylltwyr fferm a Cyswllt Ffermio yn bresenol ar stondin Llywodraeth Cymru yn Neuadd Morgannwg. Bydd staff ar gael i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf ar ystod o bynciau cyfoes gan gynnwys Cynllun Ffermio Cynaliadwy, Cynlluniau Cymorth amaethyddol, Cynlluniau Creu Coetiroedd, y diweddaraf ar y Rheoliadau Dŵr a iechyd a lles anifeiliaid. Dewch draw i ddweud helo!

# Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Gwasanaeth cymorth wedi'i ariannu'n llawn

Rydym yn rhoi arweiniad i gwsmeriaid mewn perthynas â holl feysydd polisi ynghyd a cynlluniau ffarmwriaeth a gwledig a weinyddir gan Lywodraeth Cymru





## Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â:

### De-orllewin Cymru a Chymru gyfan

**RITA JONES** (siaradwr Cymraeg)
07971 048619
rita.jones@gov.wales

### De Cymru (Dwyrain a Gorllewin)

**JANE WALTERS**
07721 894875
jane.walters@gov.wales

**CATRIN JONES** (siaradwr Cymraeg)
07968 159637
catrin.jones3@gov.wales

**CAITLIN HARLEY** (siaradwr Cymraeg)
07890 663351
Caitlin.harley@gov.wales

### Gogledd-ddwyrain Cymru

**ARMANDO MORGAN** (siaradwr Cymraeg)
07774 950639
armando.morgan@gov.wales

### Gogledd-orllewin Cymru

**JANET PHILLIPS** (siaradwr Cymraeg)
07774 950654
janet.phillips@gov.wales

### Canolbarth Cymru

**STEVE MEREDITH**
07721 894873
stephen.meredith@gov.wales

**EVE BRIDGEWATER**
07721 894869
eve.bridgewater@gov.wales

FLS
Tîm Cysylltwyr Fferm
Farm Liaison Service


OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG41084

# MATERION GWLEDIG CYMRU

MWC / RAW

Mae Rhwydwaith Gwledig Cymru wedi cael ailfrandio gyda lansiad gwefan ac enw newydd! Mae Materion Gwledig Cymru, sy'n rhan o Is-adran Materion Gwledig Llywodraeth Cymru, yn annog ac yn hyrwyddo datblygu gwledig drwy rannu gwybodaeth, newyddion, syniadau ac arfer da. Rydym yn gweithio gyda, ac ar gyfer, unrhyw un sy'n byw, yn gweithio neu sydd â diddordeb yng Nghymru Wledig.

Bydd rhagor o fanylion ar gael drwy'r sianeli canlynol a restrir isod.

**facebook.com/WalesRuralNet**

---

**@WalesRuralNet**


---

**rhwydwaithgwledig_ruralnetwork (@rgc_wrn)**
**(Instagram photos and videos)**

---

**busnescymru.llyw.cymru/materiongwledigcymru/**

Cysylltwch â ni ar unrhyw adeg drwy e-bost **Ruralnetwork@gov.wales** neu drwy unrhyw un o'r sianeli a restrir uchod. Byddwn yn cysylltu â chi cyn gynted â phosibl.



# Cronfa Ddata Cyswllt Ffermio

Rydym am sicrhau bod gennym eich gwybodaeth gywir ar ffeil. Efallai eich bod wedi cofrestru gyda ni ychydig flynyddoedd yn ôl ac mae eich manylion neu wybodaeth busnes wedi newid.

Mae sicrhau bod y wybodaeth rydym yn ei chadw'n ddiogel yn gyfredol yn golygu y gallwn roi'r diweddariadau mwyaf perthnasol ac amserol i chi am weithgareddau, gwasanaethau, a chyfleoedd sydd o ddiddordeb i chi.

**Drwy gadw eich proffil yn gyfredol, byddwch yn elwa o:**

✓ **Ddiweddariadau personol:** Cael gwybodaeth wedi'i theilwra am ddigwyddiadau, gwasanaethau ac adnoddau sy'n cyd-fynd â'ch anghenion ffermio penodol.

✓ **Gwell cyfathrebu:** Sicrhau eich bod yn cael gwybod am gyhoeddiadau, cyfleoedd a datblygiadau pwysig yn y diwydiant amaethyddol bob amser.

✓ **Mynediad at wasanaethau gwerthfawr:** Cysylltu â mentoriaid, arbenigwyr, a sefydliadau a all gefnogi eich anghenion busnes.

## » I ddiweddaru eich proffil ffoniwch ni heddiw ar **03456 000 813.**




*Rydym yn croesawu galwadau'n Gymraeg*

*We welcome calls in Welsh*

# Sicrhau Llwyddiant: e-ddysgu i Ffermwyr

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

SGILIAU A HYFFORDDIANT
SKILLS AND TRAINING

Mae ein rhaglenni **e-ddysgu rhyngweithiol** yn rhoi sylw i amrywiaeth eang o bynciau a fydd yn eich helpu i ddatblygu sgiliau newydd a sgiliau presennol, ennill mwy o wybodaeth a gwella arferion gwaith yn eich busnes.

Yn ddiweddar rydym wedi ychwanegu 4 modiwl newydd at ein platfform e-ddysgu, cymerwch olwg...

| | |
|---|---|
| » Asesiadau Sgôr Cyflwr Corff Defaid | » Asesiadau Sgôr Cyflwr Corff Gwartheg |
| » Asesiadau Sgôr Symudedd Defaid | » Asesiadau Sgôr Symudedd Gwartheg |

**03456 000 813**
**llyw.cymru/cyswlltffermio**

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

CLINIGAU
CLINICS

# Beth am roi Hwb i'ch Busnes Amaeth gyda Chlinigau Arallgyfeirio a Marchnata Cyswllt Ffermio

**Ydych chi am ehangu eich busnes amaeth neu archwilio cyfleoedd newydd?** Mae Clinigau Arallgyfeirio a Marchnata Cyswllt Ffermio yn cynnig cipolwg gwerthfawr a chyngor ymarferol i'ch helpu i gyflawni eich nodau.

**Ymunwch â ni i ddysgu am:**

- ✓ Nodi opsiynau arallgyfeirio proffidiol
- ✓ Datblygu strategaethau marchnata effeithiol
- ✓ Sut i sicrhau bod eich llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn perfformio

Mae ein clinigau wedi'u cynllunio i roi'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i lwyddo yn y farchnad gystadleuol heddiw. Peidiwch â cholli'r cyfle hwn i fynd â'ch busnes amaeth i'r lefel nesaf!

**Am ragor o wybodaeth, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â ni heddiw.**

# BLE ALLA I GAEL HELP?
## CYSYLLTWCH Â NI

**FARMWELL WALES**
www.farmwell.wales

**CYSWLLT FFERMIO**
03456 000 813

**SEFYDLIAD DPJ**
07860 048799 (testun yn unig)

**CRONFA ADDINGTON**
01926 620135

**TIR DEWI**
0800 1214722
mail@tirdewi.co.uk

**TÎM CYSYLLTWYR FFERM**
0300 0255449
ffarmliaisonservice@llyw.cymru

**SEFYDLIAD FUDDIANOL AMAETHYDDOL FRENHINOL (RABI)**
0800 188 4444
help@rabi.org.uk

**Y RHWYDWAITH CYMUNEDAU FFERM**
03000 111 999
help@fcn.org.uk

**CANOLFAN GYSWLLT CWSMERIAID TALIADAU GWLEDIG CYMRU**
0300 062 5004

**MIND CYMRU**
0300 123 3393
info@mind.org.uk

**SAMARITANS**
116 123
jo@samaritans.org